Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Cylch Gorchwyl y
# Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

**1. CYFLWYNIAD**

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys, ei ddiben, strwythur llywodraethu a threfniadau gweithio, aelodaeth a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) Dyfed-Powys yn gweithio mewn partneriaeth â'ch asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol, a phartneriaid eraill, i osod dioddefwyr wrth galon y system cyfiawnder troseddol.

Yng Nghod Dioddefwyr 2015, diffinnir 'dioddefydd' fel:

- *person naturiol sydd wedi dioddef niwed, yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd;*
- *perthynas agos (neu lefarydd teulu enwebedig) i berson yr achoswyd ei farwolaeth/marwolaeth yn uniongyrchol gan drosedd.*

Gyda'n gilydd, yr ydym yn awyddus i wella profiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol. Yr ydym eisiau i ddioddefwyr ein helpu i graffu ar y ffordd yr ydym yn cyflwyno gwasanaethau, i'n helpu i:

- Fod yn uchelgeisiol i barhau i wella;
- Bod yn deg yn y ffordd yr ydym yn trin pobl; a
- Chanolbwyntio ar anghenion dioddefwyr.

Er mwyn gwneud hyn, yr ydym eisiau clywed am brofiadau a barn dioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys fydd y prif gyfrwng ar gyfer y gweithgarwch hwn, ac mae'n mabwysiadu ymagwedd bartneriaeth tuag at ymgysylltu â dioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled ardal Dyfed-Powys.

**2. DIBEN Y FFORWM YMGYSYLLTU Â DIODDEFWYR**

Diben cyffredinol y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yw cydweithio er mwyn sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn dylanwadu ar graffu ar ddarpariaeth gwasanaeth, er mwyn cefnogi cyflenwi gwasanaeth neilltuol ar gyfer dioddefwyr. Mae'n hollbwysig bod ein cysylltiad yn effeithiol, ystyrlon a dylanwadol; ei fod yn gwneud gwahaniaeth.

Amcanion cyffredinol gweithgarwch ymgysylltu drwy'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yw:

- Darparu awgrymiadau adeiladol a chyngor ynghylch sut y gellir gwella ansawdd cyflenwi gwasanaethau dioddefwyr yn ystod pob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol;
- Ymgynghori ag asiantaethau cyfiawnder troseddol ar arferion, polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau dioddefwyr;

- Darparu cyngor ac arweiniad er mwyn sicrhau bod gwasanaethau dioddefwyr yn briodol, eu bod yn bodloni anghenion dioddefwyr, a'u bod yn gyflawn h.y. does dim bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth;
- Gwella ffydd a hyder mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol drwy gynnwys cymunedau lleol yn y broses o graffu ar wasanaethau dioddefwyr a'u gwella;
- Rhoi'r grym i ddioddefwyr symbylu gwelliant drwy sicrhau bod effaith y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ar ddarpariaeth gwasanaeth yn dryloyw a bod dioddefwyr yn medru gweld y gwahaniaeth y mae eu cysylltiad â'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn gwneud;
- Gwella bodlonrwydd dioddefwyr ac unrhyw ddatgysylltu posibl â'r system cyfiawnder troseddol drwy wella gwasanaethau; a
- Gweithredu fel 'llais dioddefwyr' – gan gydnabod bod profiad pob unigolyn yn unigryw.

**3. TREFNIADAU GWEITHIO A LLYWODRAETHU**

Bydd SCHTh yn goruchwylio ac yn cydlynu'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, gyda mewnbwn gan sefydliadau partner yn ystod pob cam o'r broses ymgysylltu â dioddefwyr:

***a) Adnabod pynciau***

Nodir pynciau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu drwy drafodaethau ymysg partneriaid mewn fforymau sefydledig sy'n canolbwyntio ar y dioddefydd, er enghraifft, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys a'i Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion, a Grŵp Ymchwiliadau a Chyfiawnder Troseddol Strategol Heddlu Dyfed-Powys (HDP) a'i Is-grwpiau; y Grŵp Cyfiawnder Troseddol, Dioddefwyr a Thystion a Safonau Ymchwilio.

Gellir cyflwyno awgrymiadau pellach i SCHTh hefyd y tu allan i'r fforymau sefydledig hyn lle mae ffocws ar ddioddefwyr, a gellir cynnwys partneriaid ychwanegol pan fod angen. Bydd adborth a materion allweddol a godir gan ddarparwyr gwasanaeth, megis gwasanaethau a gomisiynir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), hefyd yn cael eu hystyried wrth nodi pynciau ymgysylltu.

***b) Ymgorfforiad yn y Rhaglen Ymgysylltu â Dioddefwyr***

Bydd SCHTh yn ystyried y pynciau a nodir, ac os ydynt yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, bydd gweithgarwch ymgysylltu o gwmpas y pwnc hwnnw'n cael ei ymgorffori mewn Rhaglen Ymgysylltu â Dioddefwyr. Bydd manylion y penderfyniadau hyn yn cael eu cynnwys yn y cofnodion cynllunio er mwyn sicrhau llwybr clir o'r rhesymau dros gynnal gweithgarwch ymgysylltu.

Gall pwnc ymgysylltu gael ei ystyried yn amhriodol os oes dewis amgen mwy addas yn bodoli i'r partner / dioddefydd ddilyn i geisio adborth ac adolygiad. Er enghraifft, ni fydd y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn darparu trywydd ar gyfer adolygu achos dioddefydd unigol, gan fod llwybrau iddynt ddilyn eisoes yn bodoli.

Bydd y Rhaglen Ymgysylltu'n rhoi manylion am holl agweddau'r gweithgarwch ymgysylltu, o'r llinell amser i'r fethodoleg. Rhennir hyn gyda phartneriaid.

Os bydd nifer o weithgareddau ymgysylltu'n cael eu nodi a'u ceisio ar gyfer cyfnod penodol, bydd SCHTh yn penderfynu pa weithgarwch y dylid ei flaenoriaethu. Rhoddir ystyriaeth i nod y partner a'i amcanion ar gyfer y gweithgarwch ymgysylltu, dyletswyddau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gweithgarwch craffu'r Panel Heddlu a Throseddu, a Strategaethau a Pholisïau partneriaid, megis Strategaeth Reoli Heddlu Dyfed-Powys.

***c) Cynllunio***

Yr asiantaeth bartner fydd yr arbenigwr yn ei maes, a disgwylir iddi weithio gyda SCHTh er mwyn nodi'r amcanion a'r allbynnau arfaethedig ar gyfer y gweithgarwch ymgysylltu. Bydd hi hefyd yn gweithio gyda SCHTh er mwyn cynllunio ar gyfer y gweithgarwch ymgysylltu.

Bydd SCHTh yn cynghori ynghylch y methodolegau ymgysylltu mwyaf addas i'w mabwysiadu, a byddwn yn gweithio gydag asiantaethau partner er mwyn datblygu arfau ymgysylltu, megis cwestiynau arolwg neu bynciau trafod grŵp ffocws.

Bydd SCHTh yn gyfrifol am gydlynu cyswllt â dioddefwyr a hyrwyddo'r gweithgarwch ymgysylltu, gyda chymorth yr asiantaeth bartner, gan ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol.

***ch) Gweithgareddau ymgysylltu***

Cydnabu nad yw pob dioddefydd yn dymuno, nac yn medru, ymgysylltu â ni yn yr un ffordd. Gan hynny, byddwn yn anelu i gynnig gweithgareddau ymgysylltu gwahanol ar gyfer pob pwnc. Gall y rhain gynnwys:

- Arolwg a anfonir yn electronig;
- Arolwg a gwblheir wyneb yn wyneb;
- Grŵp ffocws sy'n cwrdd wyneb yn wyneb;
- Cyfarfod rhithwir ar-lein;
- Rhannu dogfen neu bolisi drwy e-bost neu drwy'r post, gyda chais am adborth ar y ddogfen neu'r polisi dan sylw drwy e-bost, yn ysgrifenedig neu dros y ffôn;
- Polau ar gyfryngau cymdeithasol;
- Trafodaethau un-i-un.

Nid rhestr gynhwysfawr yw hon o bellffordd, ac addasir methodoleg ar gyfer y sefyllfa.

Bydd SCHTh yn arwain ar ymgymryd â'r gweithgareddau ymgysylltu. Pan fod angen, er enghraifft, ar gyfer grwpiau ffocws, gofynnir i asiantaethau partner fod yn bresennol / cymryd rhan yn y gweithgarwch er mwyn sicrhau bod yr unigolion priodol yn bresennol i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddioddefwyr. Bydd hyn hefyd yn rhoi hyder i ddioddefwyr bod asiantaethau'n gwrando ar eu hadborth, yn ei rannu a'u sefydliad ac yn gweithredu ar yr adborth hwnnw.

Ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu, byddwn yn dilyn set o Reolau Ymgysylltu, a fydd yn ein cynorthwyo i alluogi dioddefwyr i ddweud eu dweud, rhyngweithio a'i gilydd a gyda ni, ac adfer y wybodaeth sydd ei hangen arnom. Gall y Rheolau amrywio rhywfaint gan ddibynnu ar y gweithgarwch, ond bydd y pwyslais ar y canlynol:

i. Byddwch yn gwrtais – efallai na fydd pawb ohonom yn hoffi'r hyn sy'n cael ei ddweud, ond os yw'n cael ei ddweud heb anlladrwydd a heb regi, ac nid yw'n fygythiol, yr ydym yn fodlon ar hynny.
ii. Byddwch yn gyfreithlon – ni fyddwn yn dioddef negeseuon gwahaniaethol, cas neu ddifrïol, a byddwn yn gweithredu os ystyrir bod negeseuon yn anghyfreithlon.
iii. Diogelwch eich hun – peidiwch â phostio manylion personol neu enwau, lluniau a manylion personol unrhyw unigolion heb eu caniatâd.
iv. Byddwch yn berthnasol – byddwn yn trafod elfen benodol o daith dioddefydd, a bydd digon o gyfleoedd yn y dyfodol i rannu barn am agweddau eraill y system cyfiawnder troseddol.

Yr ydym yn parchu hawl pawb i fynegi eu barn a'u syniadau, ond os nad yw cyfraniadau'n cydymffurfio â'n Rheolau, yr ydym yn cadw'r hawl i ddileu sylwadau a/neu gael gwared ar aelodau o drafodaeth grŵp.

***d) Ystyried canlyniadau ymgysylltu***

Bydd SCHTh yn casglu canlyniadau ymgysylltu ac yn eu rhoi i'r asiantaeth bartner berthnasol. Cyfrifoldeb yr asiantaeth bartner fydd ystyried y canlyniadau ymgysylltu ac adborth dioddefwyr yn llawn.

***dd) Diweddariadau ac adborth***

Mae hwn yn gam hollbwysig o'r broses ymgysylltu. Yr ydym yn addo diweddaru a chynnwys y rhai sy'n ymgysylltu â ni. Disgwylir i bartneriaid sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth i SCHTh er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflenwi.

O fewn amserlen benodol, disgwylir i'r asiantaeth bartner roi diweddariadau ynghylch camau gweithredu a gymerwyd, argymhellion a roddwyd ar waith, a gwelliannau a wnaed i wasanaethau dioddefwyr o ganlyniad uniongyrchol i gysylltiad dioddefwyr. Bydd SCHTh yn rhoi manylion am y broses adborth, gan gynnwys amserlenni a phrosesau ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu.

Rhoddir diweddariadau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a sefydliadau partner yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, a bydd dioddefwyr yn derbyn y diweddariadau yn eu tro er mwyn i'r dioddefwyr eu hun ddal partneriaid i gyfrif.

Ar ôl cymryd rhan yn ein gweithgarwch ymgysylltu, mae'n bwysig fod dioddefwyr yn cael gwybod sut y mae eu mewnbwn wedi effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth. Bydd y canlyniadau ymgysylltu hefyd yn cael eu cyfathrebu'n ehangach fel yr ystyrir yn briodol, er enghraifft, drwy ddatganiadau i'r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.

Bydd CHTh yn craffu ar waith y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, gan sicrhau y gwrandewir ar leisiau dioddefwyr.

**5. AELODAETH PARTNERIAID A'R GRONFA DDATA DIODDEFWYR**

Mae partneriaid sy'n rhan o'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn cynnwys y rhai sy'n ffurfio Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys, ac ehangir aelodaeth i bartneriaid eraill lle bo angen, er enghraifft, er mwyn cynnwys sefydliadau trydydd partner a gwasanaethau a gomisiynwyd gan y CHTh.

Ni fydd y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn ceisio sefydlu "aelodaeth" dioddefwyr na Phanel o ddioddefwyr. Byddwn yn sefydlu cronfa ddata – y Gronfa Ddata Ymgysylltu â Dioddefwyr – o ddioddefwyr trosedd / ymddygiad gwrthgymdeithasol (fel y diffinnir o dan y Cod Ymarfer Dioddefwyr), ac unigolion sydd wedi cefnogi rhywun sy'n agos atynt sydd wedi dioddef trosedd / ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy'r broses. Bydd pob unigolyn ar ein cronfa ddata eisoes wedi cytuno i ymgysylltu â SCHTh mewn perthynas â thaith y dioddefydd.

Pan mae gweithgarwch ymgysylltu ar fin cael ei gyflawni, byddwn yn hysbysu pawb sydd ar y gronfa ddata, gan roi gwybodaeth iddynt am natur y gweithgarwch ymgysylltu, ac yn gofyn i'r rhai sydd eisiau cymryd rhan rannu eu barn am y pynciau sy'n cael eu hystyried. Dim ond y SCHTh fydd â mynediad i'r gronfa ddata, a dim ond y SCHTh fydd yn cysylltu â'r rhai ar y gronfa ddata, yn unol â'n Hasesiad Effaith Diogelu Data.

Yn ogystal â chysylltu â'r rhai ar ein Cronfa Ddata,hyn, lle bo'n addas, byddwn yn hysbysebu cyfleoedd ymgysylltu'n gyhoeddus o fewn ein cymunedau, er mwyn cyrraedd dioddefwyr nad ydym o bosibl wedi cael cysylltiad â nhw o'r blaen.

Lle bo'n berthnasol, gan ddibynnu ar y pwnc ymgysylltu, gall SCHTh dargedu cymunedau penodol o fewn yr ardal heddlu wrth hyrwyddo'r gweithgarwch hefyd. Er enghraifft, gallai SCHTh gysylltu â phreswylwyr lleoliad penodol, neu'r rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Gydraddoldeb.

**6. CYLLID**

Yn y lle cyntaf, y CHTh fydd yn darparu unrhyw gyllid sydd ei angen ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu yr ymgymerir ag ef gan SCHTh. Fodd bynnag, gall fod angen i sefydliadau partner ddarparu adnoddau neu gyllid ychwanegol, gan ddibynnu ar y cynlluniau a'r blaenoriaethau ar y cyd y cytunir arnynt ar gyfer y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr.

**7. CYFRINACHEDD A DIOGELU DATA**

Bydd cyfrinachedd a diogelu data wrth galon ein holl weithgarwch ymgysylltu a rhyngweithio â dioddefwyr, a bydd SCHTh yn sicrhau bod yr holl waith papur, asesiadau a chytundebau perthnasol mewn grym; er enghraifft, Asesiad Effaith Diogelu Data a Chytundebau Cyfrinachedd lle bo angen. Bydd cyfleoedd ar gael i unigolion sydd eisiau cyfrannu'n ddienw hefyd.

**8. RHEOLI FERSIYNAU A DYDDIAD ADOLYGU**

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 1 |
| Awdur: | Hannah Hyde |
| Dyddiad cymeradwyo: | 02/10/2020 |
| Bwrdd cymeradwyo: | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys |
| Dyddiad adolygu cychwynnol: | 02/04/2021<br>04/10/2021<br>Adolygiad 6 mis wedi'i gwblhau.<br>Newidiadau i'r diffiniad o 'ddioddefwr' o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr wedi'i ddiweddaru (Cod Dioddefwyr) (Ebrill 2021) |
| Dyddiad adolygu nesaf | 04/04/2021 |